

YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF: 47/2016

DYDDIAD CYHOEDDI: 13/07/2016

# Gwerthusiad Rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith 2011-14: Hyfforddiaethau

---

## 1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Comisiynodd Llywodraeth Cymru York Consulting, ar y cyd ag Old Bell 3, Prifysgol Caerdydd ac IFF Research i gynnal gwerthusiad o'r Rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith 2011-15 (WBL 2011-15). Dechreuodd y gwerthusiad ddechrau mis Tachwedd 2013 a pharhaodd tan fis Tachwedd 2015.

1.2 Roedd y rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith (WBL) yn cynnwys: Prentisiaethau; hyfforddeiaethau; a Camau at Waith. Amcanion y gwerthusiad oedd:

- Asesu effeithiolrwydd y contractio a'r darparu ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith 2011-15.
- Bodloni gofynion gwerthuso WEFO ar gyfer prosiectau sy'n derbyn arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF).
- Cynnal gwerthusiad penodol o gyflenwi'r Hyfforddeiaethau.
- Asesu cyflwyno allbynnau, canlyniadau ac effeithiau
- Asesu i ba raddau mae'r rhaglen wedi sicrhau cyfranogiad unigolion yn ôl nodweddion gwarchoddedig.
- Adolygu sut y cafodd Polisi Sgiliau Hanfodol ei ymgorffori yn narpariaeth dysgu seiliedig ar waith a sut y gwnaeth hyn gyfrannu at gyflawni amcanion dysgu seiliedig ar waith 2011-15.

1.3 Roedd y fethodoleg yn ymwneud â'r elfennau canlynol: cyfweiliadau â phum swyddog yn Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid allanol a darparwyr hyfforddiant; adolygu gwybodaeth reoli Hyfforddeiaeth a data perfformiad rhaglen; adolygu dogfennau; arolwg ffôn o 45 o gyflogwyr; arolwg ffôn o 209 o gyfranogwyr Hyfforddeiaeth yn y gorffennol; astudiaethau achos gyda saith o gyflogwyr sy'n

ymwneud â Hyfforddeiaethau.

- 1.4 Mae'r adroddiad hwn ar gyfer y rhaglen gyfan gyda gwahaniaethau ar gyfer ardaloedd Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) o'i gymharu â gweddill Cymru, yn cael eu hamlygu lle maent yn arwyddocaol.

## **2. Canfyddiadau allweddol**

- 2.1 Yn ystod 2011-2015 roedd tua 24,500 o rai yn gadael y Rhaglen Hyfforddeiaeth. Roedd 19,065 o'r bobl ifanc hyn yn cael eu hariannu gyda 65 y cant (12,450) yn cael eu hariannu drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yn ardaloedd Cydgyfeirio Cymru; gan ragori ar y targed o 12,120.
- 2.2 Fe wellodd perfformiad yn yr ail a'r drydedd flwyddyn, gyda mwy o niferoedd a gwell canlyniadau; gan gyrraedd 68 y cant o ddilyniant cadarnhaol yn 2013/14, yn nes at gael ei dosbarthu fel 'da', yn seiliedig ar feini prawf Llywodraeth Cymru.
- 2.3 Cyrhaeddwyd targedau ESF yn gyffredinol ar gyfer cyfanswm cyfranogi, cyfranogiad merched a niferoedd oedd yn symud ymlaen i gyflogaeth. Fodd bynnag, ni chyrrhaeddwyd y targedau ar gyfer cymwysterau a symud ymlaen i ddysgu pellach.

### **Safbwyntiau'r rhai sy'n ymwneud â'r rhaglen**

- 2.4 Yn gyffredinol roedd yr holl randdeiliaid a darparwyr yn cytuno bod pobl ifanc: yn isel eu hyder wrth ddechrau rhaglen; gyda chymwysterau a sgiliau isel; weithiau wedi cael profiadau negyddol o ddysgu yn yr ysgol; gyda'r potensial i gyfrannu'n gadarnhaol; fel arfer dim ond eisiau swydd gyda llai o werth yn cael ei roi ar ddysgu.
- 2.5 Ystyrid hyfforddeiaethau gan randdeiliaid fel y ffordd iawn i ddarparu cymorth i'r grŵp cleient ond gyda phryderon am eu gweithredu. Roedd rhai o'r pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid yn cynnwys maint y contractau, diffyg hyblygrwydd a darpariaeth wedi'i theilwra, trosiant staff y darparwyr, cymhwysedd staff y darparwr, diffyg partneriaeth rhwng darparwyr, diffyg ymgysylltu â chyflogwyr, diffyg cefnogaeth ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth a diffyg cyfranogiad gan Gyrfa Cymru. Mae'r problemau hyn yn cael eu harchwilio'n fanylach yn adran pump o'r adroddiad.
- 2.6 Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn canfod grŵp cleientiaid yn heriol, diffyg cydnabyddiaeth o rai mathau o ddilyniant, adnoddau annigonol, diffyg hyrwyddo / marchnata cenedlaethol, rhai wedi cwblhau ddim yn barod ar gyfer Prentisiaethau, dwysedd is o gyfranogiad gan Gyrfa Cymru ac amheuaeth am barodrwydd rhai pobl ifanc a gyfeiriwyd at y llinyn Ymgysylltu.
- 2.7 Yn gyffredinol roedd cyn gyfranogwyr Hyfforddeiaeth yn gadarnhaol ynghylch Hyfforddeiaethau. Roeddynt yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r profiad oedd yn eu helpu i ddod o hyd i waith, yn rhoi hyder iddynt ac yn eu helpu i wneud cynnydd. Roeddent yn llai cadarnhaol am sgiliau hanfodol / dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Nid yw'r astudiaeth hon wedi archwilio'n fanwl ganfyddiadau pobl ifanc sy'n gadael neu ddim yn dechrau Hyfforddeiaethau.
- 2.8 Ar y cyfan roedd cyflogwyr wnaeth gymryd rhan yn gadarnhaol ynghylch Hyfforddeiaethau. Roedd rhai cyflogwyr yn hynod amyneddgar ac yn deall diffyg profiad, natur anrhagweladwy ac anghenion cymorth pobl ifanc. Lle'r oedd cyflogwyr wedi cael profiadau negyddol roeddynt yn nodi diffyg gwybodaeth am anghenion y

person ifanc, diffyg cefnogaeth / paratoi (yn gysylltiedig â rôl darparwyr a chynllunio rhaglen fel diffyg cymorth ar gyfer cludiant) a diffyg ymrwymiad y person ifanc.

- 2.9 Roedd barn gyffredinol ymhlith rhanddeiliaid a darparwyr nad oedd y rhaglen a'i phwrpas wedi ei deall yn dda gan rieni, pobl ifanc a chyflogwyr.
- 2.10 Er bod y rhaglen yn ymddangos i fod yn gwasanaethu'r rhai a gymerodd ran, roedd pryderon bod grŵp o bobl ifanc yn aml ddim yn derbyn y gefnogaeth a fwriadwyd gan gynllunio gwreiddiol y rhaglen. Roedd pobl ifanc o'r fath, a nodir yn aml fel Haen 2 yn y model pum haen o Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid<sup>1</sup>, angen mwy o gymorth un i un a chymorth dysgu ychwanegol ac nid oedd darparwyr yn eu cyflwyno.

### **3. Problemau yn ymwneud ag elfennau o'r rhaglen**

- 3.1 Roedd y llinyn Ymgysylltu yn gweithio'n dda ar gyfer nifer o gyfranogwyr ond nid oedd yn gweithio cystal ar gyfer y rhai sydd ag anghenion cymorth cymhleth. Er enghraifft, nid oedd rhai cyfranogwyr yn barod i symud i fyny hyd at 21 awr yr wythnos ar ôl y pedair wythnos gyntaf (pan oeddynt yn cymryd rhan am 12 awr yr wythnos); roeddynt angen cyfnod hwy o gymorth mewn dwysedd is. Nid oedd rhai eraill yn barod i ymgysylltu mewn dysgu mewn grwpiau mewn canolfannau; maent angen cymorth un i un
- 3.2 Roedd llinyn Lefel 1 ar y cyfan yn gweithio'n dda er bod rhai unigolion yn cael eu hystyried fel rhai oedd angen mwy o gymorth cyn eu bod yn barod i symud ymlaen i Brentisiaeth.
- 3.3 Ychydig iawn o ddefnydd a wnaed o linyn Pont at Waith; nifer fach iawn o gyfranogwyr oedd wedi cymryd rhan.

### **4. Problemau rhaglen ehangach**

- 4.1 Roedd problemau rhaglen ehangach a ganfuwyd trwy'r gwerthusiad hwn yn cynnwys:
  - Yn gyffredinol ystyriwyd fod trefniadau rheoli contractau wedi gwella yn ystod cyfnod y rhaglen.
  - Nid pawb a gyfeiriwyd at Hyfforddeiaethau gan Gyrfa Cymru wnaeth ddechrau. Roedd hyn yn aml yn wir ar gyfer unigolion ag anghenion cymorth cymhleth.
  - Mewn llawer o achosion ni ddefnyddiwyd cyllidebau Cymorth Dysgu Ychwanegol (ALS) o ganlyniad i risgiau canfyddedig o beidio tynnu arian a phryderon am yr amser i wneud hawliad. Roedd hyn yn ffactor ychwanegol oedd yn cyfyngu ar deilwra darpariaeth a chymorth i bobl ifanc sydd ag anghenion cymorth cymhleth.
  - Gellid ymgorffori cyflwyno sgiliau hanfodol yn fwy effeithiol mewn rhai

---

<sup>1</sup> Mae Haen 2 yn cyfeirio at bobl ifanc ddi-waith 16 ac 17 oed, sy'n wybyddus i Gyrfa Cymru, nad ydynt ar gael ar gyfer Cyflogaeth, Addysg neu Hyfforddiant

darpariaethau.

- Roedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel rheol yn cael ei gynnig a'i gyflwyno i'r cyfranogwyr hynny oedd ei angen.
- Gellid gwella cyfranogiad y trydydd sector wrth gyflwyno'r rhaglen a darparu lleoliadau.
- Roedd tystiolaeth o ddarparwyr yn teilwra darpariaeth ond fel arfer gwneid hyn o gwmpas darpariaeth craidd safonol ar gyfer anghenion y math hwnnw o gyfranogwr.
- Darparwyd amrywiaeth dda o opsiynau galwedigaethol i bobl ifanc. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddata ar faint gafodd brofiad lleoliadau gwaith go iawn o'i gymharu â'r rhai wnaeth brofi amgylchedd lleoliadau gwaith efelychiadol a faint wnaeth brofi sesiynau blasu profiad gwaith.
- Ar y cyfan roedd gan ddarparwyr systemau da ar waith i gefnogi pobl ifanc yn ystod eu Hyfforddeiaeth.
- Nid oedd darparwyr yn gyffredinol yn debygol o gynnwys Gyrfa Cymru pan oeddynt yn canfod pobl ifanc oedd mewn perygl o adael Hyfforddeiaethau.
- Roedd darparwyr yn cymryd rhan weithredol wrth gynllunio llwybr dilyniant ar gyfer cyfranogwyr Hyfforddeiaeth, gan eu cefnogi wrth chwilio am swyddi, sgiliau cyfweld a nodi cyfleoedd dysgu pellach.

## 5. Argymhellion

### 5.1 Mae'r argymhellion i'w hystyried yn cynnwys:

- Mae angen i ddarparwyr sicrhau fod ymgysylltiad cyflogwyr yn ddigonol i adnabod y cyfleoedd blasu gwaith a'r lleoliadau sydd eu hangen i roi profiad da o'r gweithle i'r rhai sy'n cymryd rhan. Yn benodol, mae angen ffocws cryfach ar ymgysylltiad y trydydd sector / y sector gwirfoddol yn enwedig fel ffynhonnell ar gyfer pobl ifanc sydd ag angen mwy o hyblygrwydd neu amgylcheddau gwaith cysgodol.
- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei fod yn deall y cydbwysedd rhwng lleoliadau a ddarperir mewn gweithleoedd go iawn a'r rhai mewn amgylcheddau efelychiadol. Gall hyn fod yn bosibl gan ddefnyddio data presennol neu efallai y bydd angen newidynnau ychwanegol yn set ddata Cofnod Dysgu Gydol oes Cymru (LLWR).
- Ymestyn y cyfnod o gymorth mewn dwysedd is (12 awr yr wythnos) o'r pedair wythnos gyntaf i'r wyth wythnos gyntaf.
- Cynyddu cydweithio a rhannu arferion da rhwng darparwyr Hyfforddeiaeth, er enghraifft, o amgylch ymgorffori cyflwyno sgiliau hanfodol a rheoli disgwyliadau cyflogwyr.
- Gwneud yn glir beth yw rôl Gyrfa Cymru a gorfodi asesiadau lefelau Haenau ac atgyfeiriadau a wneir.
- Adolygu sut y gellir gwella'r dull o farchnata'r rhaglen ar lefel genedlaethol a lleol.
- Adolygu cynllunio'r elfen Ymgysylltu er mwyn sicrhau y gall gefnogi'r holl bobl

ifanc o ran cwmpas a chynnig dysgu wedi'i deilwra'n go iawn i'r unigolyn. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ymhellach y rhesymau pam fod darparwyr yn gwrthod derbyn rhai cyfranogwyr a ganfyddir fel cleientiaid ffiniol.

- Adolygu elfen Lefel 1 y rhaglen i nodi cyfleoedd ar gyfer gwell dilyniant i Brentisiaethau. Gall hyn ei gwneud yn ofynnol fod canlyniad Prentisiaeth i gael eu cymell yn fwy arwyddocaol wrth gynllunio'r rhaglen.
- Adolygu cynllun y llinyn B2E i sicrhau ei fod yn gallu cefnogi pobl ifanc i symud ymlaen tuag at Brentisiaethau.
- Archwilio pam na ddefnyddir agwedd cefnogi dysgwyr ychwanegol y rhaglen ac ailgynllunio'r broses i sicrhau bod mynediad i gymorth lle mae ei angen.
- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod data yn cael eu cyhoeddi a'u hadolygu ar gyfer yr holl dargedau a osodwyd yng Nghynllun Busnes Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

Adroddiad awduron: York Consulting, Old Bell 3, Prifysgol Caerdydd, IFF Research

Adroddiad ymchwil llawn: An Evaluation of Work Based Learning 2011-2015: Traineeships  
Ar gael yn: <http://llyw.cymru/statistics-and-research/evaluation-work-based-learning/?lang=cy>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Siân Williams

Is-Adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: [Sian.Williams50@wales.gsi.gov.uk](mailto:Sian.Williams50@wales.gsi.gov.uk)

**OGL** © Hawlfraint y Goron 2016 ISBN digidol 978-1-4734-7080-4